**CYNGOR - DYDD MERCHER, 23 HYDREF 2024**

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CYNGOR A GYNHALIWYD HYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 23 HYDREF 2024 16:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd H Griffiths – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| H T Bennett | A R Berrow | S J Bletsoe | J P D Blundell |
| E L P Caparros | R J Collins | H J David | P Davies |
| M J Evans | N Farr | P Ford | RM Granville |
| G H Haines | M L Hughes | M Jones | C Lewis |
| J Llewellyn-Hopkins | J E Pratt | J C Spanswick | J H Tidesley MBE |
| H M Williams | I Williams | E D Winstanley | T Wood |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | N Clarke | C L C Davies | S J Griffiths |
| D T Harrison | D M Hughes | R M James | P W Jenkins |
| M R John | W J Kendall | R J Smith | I M Spiller |
| T Thomas | G Walter | A Wathan | A Williams |
| A J Williams | M J Williams | R Williams | |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Michael Pitman | Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol |

## 58. Ymddiheuriadau am absenoldebau

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldebau gan y Cynghorwyr F D Bletsoe, J Gebbie, W R Goode a M J Kearn |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 59. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Datganodd y Cynghorydd E Winstanley ddiddordeb personol yn eitem 8 ar yr Agenda gan ei bod yn cael ei chyflogi gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 60. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau dyddiedig 25 Medi 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 61. Cyflwyniad i'r Cyngor gan Gynrychiolwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Rhoddodd Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyflwyniad llafar i'r Cyngor ar y sefyllfa ddiweddaraf o safbwynt gwaith atgyweirio'r to yn Ysbyty Tywysoges Cymru, Pen-y-bont ar Ogwr. |

| | |
|---|---|
| | Rhoddodd wybod bod y to, yn anffodus, wedi dirywio cymaint dros y 40 mlynedd ddiwethaf nes bod dŵr glaw yn dod i mewn i'r adeilad. O ganlyniad, bu'n rhaid symud tua 190 o gleifion a nifer o glinigau i rannau eraill o'r ysbyty neu i safleoedd amgen oherwydd y risg y byddai rhannau o'r to yn dymchwel yn ystod gwyntoedd cryfion neu law trwm.<br><br>Dywedodd Mr Mears, er bod hyn wedi cael effaith ar wasanaethau'r ysbyty nad oedd modd eu hosgoi, bod cynlluniau ar waith ar gyfer rheoli a lleihau amhariadau i gleifion ac aeth ymlaen i egluro beth oedd y rhain er budd yr Aelodau. Ychwanegodd ymhellach y byddai gwaith adfer yr adeilad yn dechrau fis Tachwedd a hynny yn ystod proses a fyddai'n digwydd gam wrth gam. Dylai'r to newydd fod yn ei le erbyn haf 2025.<br><br>Amcangyfrifwyd bod cost o £20m ynghlwm wrth y to newydd ac roedd y bwrdd iechyd mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn. Roedd y problemau gyda'r to yn rhan o ôl-groniad cynnal a chadw gwerth miliynau o bunnoedd y bu i'r Bwrdd Iechyd ei etifeddu pan gymerodd gyfrifoldeb dros ardal Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019.<br><br>Roedd pob darn o waith angenrheidiol wedi'i gategoreiddio ar 'sail risg'. Pan ofynnwyd a oedd yr ariannu wedi canolbwyntio mwy ar atgyweirio'r ysbyty ym Merthyr Tudful, yn hytrach nag Ysbyty Tywysoges Cymru, datganodd Mr Mears nad mater o wneud hyn ydoedd, ond yn hytrach o edrych ar y risgiau roedd Cwm Taf yn eu rheoli a sicrhau, lle bo'n briodol, eu bod yn canolbwyntio eu hadnoddau ar ble maent eu hangen fwyaf ar draws y Bwrdd Iechyd.<br><br>Wrth drafod sut y gall teuluoedd gadw mewn cysylltiad gyda chleifion a allai fod wedi gorfod symud lleoliad, dywedodd Mr Mears bod sgwrs wedi'i chynnal gyda phob claf oedd yn cael ei effeithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru a lle bo'n berthnasol, gyda'u teuluoedd hefyd. Y flaenoriaeth gyntaf oedd ail-leoli swyddi ond yn awr roedd yn edrych ar sut roeddent yn cynefino yno, p'un a oedd eu hanghenion angen cael eu cefnogi mewn maes mwy arbenigol o'r gwasanaeth, o bosib.<br><br>Wrth drafod a fyddai gwersi yn cael eu dysgu a pha weithdrefnau a allai gael eu rhoi ar waith i osgoi digwyddiadau difrifol yn y dyfodol, dywedodd Mr Mears wrth yr aelodau: Ychwanegodd bod gan dîm Ystadau'r Bwrdd Iechyd raglen rheolaidd yn ei lle oedd yn mynd i'r afael â phroblemau dros y pum mlynedd diwethaf, gan gynnwys pam nad oedd problemau gyda'r to wedi cael eu delio â hwy cyn hyn.<br><br>Yn ychwanegol at y to, roedd problemau sylweddol wedi bod gyda'r system larwm tân, ei seilwaith trydanol a nifer o bethau eraill nad ydynt yn amlwg i gleifion neu staff ar yr olwg gyntaf. Ar y pryd, y rhain yn achosi'r mwyaf o risg, hyd yn oed yn fwy na'r risg a achoswyd gan do'r ysbyty. |

| | |
|---|---|
| | Cynigiodd Mr Mears sicrhad ynghylch llesiant parhaus staff yn yr ysbyty a chadarnhaodd fod ganddynt fynediad at gymorth iechyd a llesiant 24 awr y dydd.<br><br>Ychwanegodd bod mwyn o gefnogaeth gymunedol yn cael ei datblygu drwy fenter ‘ysbyty yn y cartref’ ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu rhyddhau, fel bod cleifion oedd yn byw gyda dementia neu anawsterau dysgu yn gallu mynychu lleoliad amgen sy’n briodol ar gyfer eu hanghenion.<br><br>Cadarnhaodd Mr Mears os nad oedd rhywun wedi cysylltu â hwy gyda diweddariad am fanylion, dylai pobl sy'n aros am apwyntiad wedi'i drefnu yn Ysbyty Tywysoges Cymru fynychu'r apwyntiad yn ôl yr arfer.<br><br>Ymddiheurodd ar ran y Bwrdd Iechyd am draweffaith yr heriau presennol, er yr hoffai sicrhau'r Aelodau bod pob penderfyniad a wnaed wedi cael ei wneud yn seiliedig ar sicrhau bod cleifion a staff mor ddiogel â phosib, wrth ystyried y risgiau oedd yn hysbys yn yr ysbyty.<br><br>Diweddodd drwy gynghori Aelodau pe bai ganddynt unrhyw bryderon penodol, y gallant godi'r rhain gydag ef y tu allan i'r cyfarfod.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi'r adroddiad a'r cyflwyniad fel y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad oddi wrth Brif Swyddog Gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

**62. Derbyn cyhoeddiadau gan:**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan y pwysigion canlynol (nid oedd unrhyw benderfyniadau yn angenrheidiol/wedi eu gwneud):<br><br>• Y Maer;<br>• Y Prif Weithredwr |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

| | |
|---|---|
| | |

## 63. Derbyn cyhoeddiadau gan yr Arweinydd

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Derbyniwyd cyhoeddiadau gan yr Arweinydd (Nid oedd unrhyw benderfyniadau yn angenrheidiol/wedi eu gwneud) |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 64. Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Thai adroddiad, at bwrpas sicrhau cymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP) ar gyfer 2024-25.<br><br>Cafwyd crynodeb o'r wybodaeth fel a ganlyn:<br><br>Mae ariannu dyled unrhyw wariant cyfalaf yn gofyn am i dâl i refeniw er mwyn rhoi adnoddau ar gyfer ad-dalu'r ddyled honno yn y dyfodol. Gelwir hyn yn Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (MRP). Mae lefel y ddyled y mae'n rhaid darparu ar ei chyfer yn cael ei adnabod fel y Gofyn Ariannu Cyfalaf (CFR).<br><br>Naill ai y mae dyled yn cael ei chefnogi, lle mae Llywodraeth Cymru yn darparu arian o fewn y setliad llywodraeth leol tuag at gost benthyca ac ad-dalu, neu nid yw wedi'i chefnogi, pan mae'r Cyngor angen cwrdd â'r gost yn llawn o fenthyca o adnoddau presennol.<br><br>Mae'r Polisi MRP presennol yn gofyn am roi MRP i'r neilltu dros sail llinell syth, a hynny dros gyfnod o 45 mlynedd ar gyfer benthyciadau sy'n cael eu cefnogi neu hyd oes yr ased ar gyfer benthyciad nad yw'n cael ei gefnogi.<br><br>Mae sail llinell syth canlyniadau MRP yn arwain at gost uwch yn ystod y blynyddoedd cynnar (wrth gynnwys costau llog), gan leihau dros amser.<br><br>Mae defnyddio dull blwydd-dal o gyfrifo MRP yn gwasgaru cyfanswm y gost - MRO gyda llog - dros oes yr ased ac ystyrir ei fod yn cyd-fynd gyda'r budd a enillir o ddefnyddio'r ased dros oes lawn. |

| | |
|---|---|
| | Cadarnhaodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Thai, bod y Cyngor wedi cymeradwyo'r Polisi MRP Blynyddol 2024-2025 fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf ym mis Chwefror 2024. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnig newid y cyfrifiad o MRP gafodd ei adnabod ym mharagraff i a ii o'r Polisi.<br><br>Roedd yr adroddiad yn rhoi manylion am y newidiadau a gynigiwyd.<br><br>Yn olaf, fe wnaeth yr adroddiad amlinellu goblygiadau ariannol yn berthnasol i'r cynigion a awgrymwyd.<br><br>Yna gofynnodd yr Aelodau gwestiynau i'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Thai, ac y mae enghreifftiau ohonynt fel a ganlyn:<br><br>• Nododd un aelod Cabinet mai adroddiad technegol oedd hwn a bod y newidiadau oedd yn cael eu cynnig oddi mewn iddo yn unol â'r canllawiau cyfredol a'u bod wedi cael eu datblygu gyda chefnogaeth gan gynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Cyngor.  Roedd awdurdodau eraill hefyd wedi datblygu polisi o'r fath;<br>• Ystyriodd un aelod y byddai cyfrifiad yn seiliedig ar flwydd-dal yn arwain at ad-daliadau dyled is yn ystod y blynyddoedd cychwynnol ac y byddai'n helpu tynnu pwysau oddi ar y gyllideb Refeniw yn y tymor byr, fodd bynnag, teimlai bod angen sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd ariannol mwy hirdymor y Cyngor. Teimlai y byddai model yn seiliedig ar flwydd-dal yn dod yn broblematig pe bai cyllidebau'n mynd yn dynnach yn sgil dirywiad economaidd pellach a/neu doriadau i ariannu Canolog gan y Llywodraeth. Mae'n bosib hefyd bod canfyddiad o anghyfartaledd rhwng y cenedlaethau drwy symud baich cyfrifoldeb ariannol i genedlaethau'r dyfodol pa bai dirywiad mewn asedau pe bai asedau'n dirywio o ran gwerth yn gynt na'r disgwyl. Mae'n bosib y byddai'n fwy buddiol a phriodol i fabwysiadu strategaeth fwy hyblyg dros dymor hirach (nag un blynyddol) a fyddai'n galluogi i Swyddogion deilwra amserlen ein had-daliadau dyled er mwyn gweddu'n well i wahanol fathau o asedau Cyfalaf. Byddai hyn yn sicrhau ad-daliadau rhagweladwy fyddai'n cyd-fynd gydag unrhyw ddirywiad mewn asedau, gyda'r dull blwydd-dal hwn wedyn yn cael ei roi ar waith mewn perthynas ag asedau statudol mwy hirdymor, er enghraifft, ysgolion, ffyrdd neu raglenni isadeiledd mawr. Hefyd byddai dull MRP mwy cymysg yn cynnig mwy o hyblygrwydd o ran rheoli llif arian, tra'n sicrhau bod peth o'r ddyled yn cael ei thalu'n gyson, ac felly'n atal unrhyw faich ariannol yn y dyfodol rhag cynyddu'n sydyn.<br>• Gofynnodd un aelod hefyd pe bai'r Cyngor yn newid i'r model arfaethedig hwn ac nad oedd yn gweithio nac o fudd i'r awdurdod lleol, ac y byddai wedyn yn mynd yn ôl i'r model presennol, oni fyddem wedyn yn gorfod talu mwy na'r hyn roeddem yn amcangyfrif ei dalu yn awr gyda'r model |

| | |
|---|---|
| | presennol?<br><br>Ymatebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Thai i'r pwyntiau uchod er budd y Cyngor.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:<br><br>Yn cymeradwyo adolygu Polisi MRP 2024-25 ar gyfer cyfrifo MRP ar sail gwariant cyfalaf oedd yn cael ei ariannu gan fenthyciad wedi'i gefnogi a heb ei gefnogi ar sail llinell syth i ddull blwydd-dal ac felly mae Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw yn cael ei gymeradwyo (cyfeirir at Atodiad A o'r adroddiad). |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 65. Derbyn y Cwestiynau canlynol gan:

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Y Cynghorydd I Williams i'r Aelod Cabinet - Adfywio, Datblygiad Economaidd a Thai (cafodd yr ymateb ei gylchredeg yn flaenorol i aelodau)<br><br>Gofynnodd y Cynghorydd Williams gwestiwn atodol i'r Arweinydd |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

## 66. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys |
| Dyddiad y Penderfyniad | 23 Hydref 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 17:18